

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

306 - Beirniadaeth Creu Ap Bl 6 ac Iau

Beirniad: Tomos H Evans

Cyntaf - Tobias Jeffs

Sail wych gyda photensial i fod yn gêm gyffrous ac eang wedi'i chanoli ar yr Urdd. Braf iawn i weld teyrnged i gemau clasurol megis Pokémon, gyda phwyslais ar addasu ac archwilio mewn byd llawn gweithgareddau difyr a gemau bach. Mae bron yn teimlo fel byd firtiwel ei hun. Mae'r gweithgareddau wedi'u lleoli yn yr adeiladau gwahanol yn syniad gwych sy'n caniatáu i'r chwaraewr archwilio mwy na'r ardal allanol yn unig. Roeddwn yn hoff iawn o nodwedd y siop, lle gallech addasu'ch afatar, ac yn bennaf yn mwynhau'r syniad o gael ystafell gemau i chwarae cyfres o gemau bach o fewn y gêm ei hun. Bles iawn oedd gweld dyluniadau gwahanol wledydd y byd o Mr Urdd. Roeddwn yn hoff iawn o'r cysyniad o ganiatáu i'r defnyddiwr ennill pwyntiau trwy chwarae'r gemau bach yn yr ystafell gemau ac yna eu gwario yn y siop i newid ac addasu golwg Mr Urdd. Mae'r delweddau o ansawdd uchel, gan ddwyn i gof arddull celf gemau antur glasurol fel Pokémon a Legend of Zelda. Defnydd gwych o synau, gyda cherddoriaeth gefndir apelgar wrth i'r cymeriad archwilio.

Ail - Gwion Thomas

Gêm hwylus a difyr sy'n cynnwys sialens cyflym i lanhau sbwriel a llygredd yng Nghymru. Mae'r syniad cyfoes o ysbrydoli plant i beidio â thaflu sbwriel ac i gadw'r wlad yn lân yn neges bwerus a phwysig i ni gyd. Mae gan y gêm llif naturiol sydd yn cynyddu'n anoddach wrth i chi mynd ymlaen, gyda chamau mwy heriol yn cael eu gosod mewn manau amrywiol. Defnydd da o gael Mr Urdd yn eich hyfforddi, gan adrodd eich nod am y lefel, ac yn eich ysgogi i chi orffen y gêm mewn brys, heb unrhyw gamgymeriadau. Ansawdd celf dda, gyda theimlad unigryw a chyffrous gan osgoi fod yn ailadroddus. Mae cyflymder y gêm yn ardderchog, gyda gwrthrychau'n disgyn yn gyflym ond ddim yn rhy gyflym, gan gyflwyno her gadarn i unrhyw chwaraewr.

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Trydydd - Lois Douch

Syniad syml ond hwylus i herio'r chwaraewr i ruthro drwy'r ddrysfa i gyrraedd yr ochr arall. Syniad gwyd i wneud y nod ar y diwedd yn ddathliad 100 mlynedd o'r Urdd i goffau'r achlysur mawreddog eleni. Yr wyf yn hoff iawn o ychwanegiad amserydd stopwats i greu brys i'r chwaraewr i gyrraedd y diwedd ar yr amser byrraf posibl, yn lle cael cyfrifydd amser i gyfri chi lawr. Mae'r rheolyddion yn syml ac yn effeithiol, sy'n gwneud i'r cymeriad i symud yn gyflym trwy'r gêm. Nodweddion da iawn ar gyfer y math yma o gêm.

1af - Tobias Jeffs

2il - Gwion Thomas

3ydd - Lois Douch